**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Adroddiad Monitro Blynyddol - Cynllun Datblygu Lleol 2023-2024* |
| **Aelod Cabinet:** | *Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Amgylchedd* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Gareth Jones* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | *15 Hydref 2024* |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

Bod y Cabinet yn derbyn Adroddiad Monitro Blynyddol 6 (Atodiad 1) a chytuno i'w gyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Hydref 2024.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gosod allan yr angen i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn flynyddol ac i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref yn flynyddol.

Mi fydd aelodau'r Cabinet yn ymwybodol fod y trefniant cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar faterion polisi cynllunio wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023 a bod tîm polisi cynllunio newydd wedi cael ei sefydlu ar gyfer Gyngor Gwynedd. Gan fod y trefniant cyd-weithio wedi dod i ben, mae AMB 6 yn adrodd ar y dystiolaeth sydd yn benodol i Wynedd yn unig. Mae casgliadau'r AMB yma (AMB 6) ynghyd a'r holl AMBau blaenorol yn rhan o'r sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

Pwrpas yr Adroddiad yma ydi cyflwyno'r chweched Adroddiad Monitro Blynyddol, sydd yn berthnasol i'r cyfnod 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024. Ynghyd a chyflwyno'r AMB fe gyflwynir trosolwg o sylwadau'r Gweithgor Polisi Cynllunio mewn perthynas â'i gynnwys ac ystyriaeth y Cabinet.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg




### 3.1 Cefndir

### Y Fframwaith Fonitro (Pennod 7 yn y Cynllun)

3.1.1 Mae'r AMB yn sail tystiolaeth bwysig ar gyfer adolygu'r CDLl ar y Cyd a dros amser gall AMB ddangos tueddiadau, adnabod unrhyw bolisïau sydd yn cyflawni ai pheidio, ac amlygu unrhyw wagle neu ddiffyg o ran polisi. Mae gan CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn fframwaith fonitro sydd wedi ei gytuno efo'r Arolygydd yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus. Mae'r fframwaith i'w weld ym mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae 70 o ddangosyddion, sydd yn adrodd ar y 5 thema sydd yn y CDLl ar y Cyd. Gan fod y

trefniant cyd weithio wedi dod i ben mae AMB 6 yn adrodd ar y dystiolaeth sydd yn benodol i Wynedd yn unig. Mi fydd y wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno yn yr Adroddiad yma ffurfio rhan o'r sail tystiolaeth yn gysylltiedig â CDLl Gwynedd.

3.1.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:-

| Symbol | Disgrifiad | Nifer o Ddangosyddion |
|---|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. | 28 |
|  | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. | 21 |
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. | 5 |
|  | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. | 0 |
| Dangosyddion sydd wedi ei gyflawni | | 11 |
| Dangosyddion and oes angen adrodd arnynt (perthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn) | | 3 |

3.1.3 Mae yna ddisgwyliad i bob fframwaith fonitro gynnwys dangosyddion craidd yn ymwneud a'r canlynol:-

| Dangosydd craidd | Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro |
|---|---|
| Dosbarthiad gofodol datblygiad tai | D25 |
| Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig. | D47 |
| Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronnol disgwyliedig. | D44 |
| Nifer o dai fforddiadwy adeiladwyd o'i gymharu â'r targed sydd yn y Cynllun. | D47 |
| Pa fath o dai fforddiadwy adeiladwyd (daliadaeth). | Heb gynnwys o fewn y fframwaith Monitro mabwysiedig |

| | |
|---|---|
| | ac nid yw'n cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau. | D32 & D33 |
| Hyfywdra'r farchnad ar gyfer datblygiadau tai. | D50 |
| Graddfa datblygu ar ddynodiadau tai. | D45 & D46* |
| Datblygu prosiectau isadeiledd allweddol. | Heb gynnwys o fewn y fframwaith Monitro mabwysiedig ac nid yw'n cael ei fonitro ar hyn o bryd |
| Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu. | D56*, D57 & D58 |
| Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2. | D18 |

*Ddim yn cael ei adrodd arnynt, gan eu bod yn benodol berthnasol i Ardal Awdurdod cynllunio Lleol Cyngor Sir Ynys Môn

3.1.4 Mae gweddill y dangosyddion sydd i'w gweld yn Fframwaith Fonitro'r CDLl ar y Cyd yn rhai sydd yn benodol i ardal y CDLl y Cyd.

3.1.5 Mae'r tabl isod yn nodi'r weithred sydd yn y Fframwaith Fonitro. Gall gweithrediadau eraill fod yn berthnasol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, e.e. diwygio Canllaw Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd. Mae gweithred wedi cael ei nodi yn erbyn bob un dangosydd yn yr AMB fel rhan o'r dadansoddiad. Mae ambell ddangosydd wedi derbyn y lliw llwyd gan fod y dangosydd wedi cael ei gyflawni e.e. mabwysiadu CCA. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r gweithredoedd yn dilyn asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro:-

| **Asesiad** | **Gweithred** | **Nifer o ddangosyddion yn y categori** |
|---|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro | 42 |
| Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod | 0 |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. | |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. | 13 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Adolygu'r polisi yn unol â hynny | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu | Adolygu'r Cynllun | 0 |
| Targed wedi ei gyflawni. | Dim angen gweithrediad pellach. | 11 |

3.1.6 Casgliadau Allweddol yr AMB

1. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 208 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2023/24. Gweler dosbarthiad y caniatadau hyn yn Atodiad 2 o'r AMB. Roedd 137 uned (65.9%) ar gyfer tai fforddiadwy.
2. Cwblhawyd 137 o dai yn ystod y cyfnod monitro yma.
3. Cwblhawyd 67 o unedau tai fforddiadwy yn 2023-24 sydd yn 48.9% o'r holl unedau a gwblhawyd ar gyfer eleni. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun.
4. Nodir bod 2475 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2023/24, tra bod y taflwybr yn y Cynllun (wedi ei gyfleu i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd) yn nodi ffigwr cwblhau o 3238 o unedau erbyn y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 23.6% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr.
5. Mae 18.3% o'r unedau tai[1] a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 49.0% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 32.7% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.
6. Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (2023-24), mae 9.5% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.

1 Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

7. Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod y cyfnod AMB yw 24.7 o unedau fesul hectar.
8. Caniatawyd 3 safle eithrio tai fforddiadwy yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol (cyfanswm o 26 uned ar y safleoedd a ganiatawyd).
9. Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr un uned marchnad leol o'r newydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Cwblhawyd un uned marchnad leol yng nghyfnod yr AMB hwn o fewn yr ardal hon.
10. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 65% o ganiatadau tai ar safleoedd o'r newydd (heb gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) ac sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi cynnwys y lefel ddisgwyliedig o dai fforddiadwy ar y safle. Ar gyfer yr 5 safle sydd efo 11+ o unedau tai a gafodd ganiatâd yn ystod 2023 i 2024 mae 4 safle ar gyfer datblygiadau 100% o dai fforddiadwy efo un safle arall yn darparu'r lefel disgwyliedig o dai fforddiadwy.
11. Allan o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy yn 49%.
12. Derbyniodd y Cyngor 24 Apêl yn ystod y cyfnod monitro. Cafodd 66.7% o'r rhain eu gwrthod. Nid oedd unrhyw un o'r apeliadau a ganiatawyd yn tanseilio'r polisïau a gynhwysir yn y Cynllun. Roedd yr apeliadau a gymeradwywyd yn ymwneud â materion megis dyluniad, angen lleol ac effeithiau'r dirwedd. Roedd 2 ar gyfer defnydd preswyl, 3 yn geisiadau deilydd tŷ, 1 ar gyfer llety gwyliau a 2 ar gyfer meysydd carafán.
13. Un o amcanion strategol y CDLl ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig, mae'r amcan hynny wedi bod yn llwyddiannus yn ystod cyfnod AMB, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer amryw o ddefnyddiau cyflogaeth gan gynnwys gweithdy cyhoeddi presennol, busnes cartref bridio cŵn, menter pigo ffrwythau eich hun.
14. Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2024 dim ond 92.6 GWh yn ychwanegol i'r ffigyrau yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLl ar y cyd sydd wedi cael ei ddarparu. Felly nid yw'r targed o 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a thrydan yn cael ei ddarparu erbyn 2021 wedi cael ei gyflawni. Mae gan y cynlluniau a ganiateir potensial ar gyfer ynni a gynhyrchir o 3,281.4GWh. Byddai hyn yn cyrraedd y targed o fewn y Cynllun fodd bynnag mae rhai o'r cynigion wedi cael caniatâd ers peth amser. Mae'n amlwg felly bod methu â chyflawni'r targed o fewn y Cynllun mewn perthynas â gweithredu cynlluniau yn hytrach na methiant ym Mholisïau Ynni Adnewyddadwy'r Cynllun.
15. Cafodd 3 cais ei gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol a chafodd 13 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol.

3.1.7 Bydd casgliadau'r AMB yma ynghyd a'r AMB blaenorol yn darparu sail tystiolaeth bwysig wrth baratoi CDLl newydd. Fel yr amlinellir uchod ac yn AMB 6 (i'w weld yn atodiad 1) nid yw rhai targedau polisi yn cael eu cyrraedd. Fodd bynnag, mae rhan helaeth o rain yn ymwneud â materion sydd y tu hwnt i reolaeth y CDLl ar y Cyd. Mae'r CDLl ar y Cyd yn darparu fframwaith polisi i gefnogi datblygiadau priodol o fewn ardal y cynllun. Ble nad yw'r targed wedi ei gyflawni, mae hyn yn bennaf oherwydd ffactorau sydd tu hwnt i reolaeth y CDLl ar y Cyd.

**Barn gyffredinol y Gweithgor Polisi Cynllunio**

3.1.8 Cafwyd sylwadau yn:

- codi pryder am y safleoedd oedd wedi ei dynodi yn y CDLl ar y Cyd a oedd heb dderbyn caniatâd cynllunio.
- mynegi pryder am y dangosyddion sydd yn benodol berthnasol i'r iaith Gymraeg fel y cynhwysir yn y fframwaith fonitro a adroddir arnynt yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Ni ystyriwyd fod y dangosyddion ar ei ffurf bresennol yn caniatáu monitro effeithiol o effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg.
- holi am effaith posib y Cyfarwyddyd Erthyl 4 a goblygiadau hynny ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd, megis yr angen am ddynodiadau tai. Rhagwelwyd y bydd gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael effaith ar y farchnad dai gan ryddhau fwy o dai ar y farchnad agored. Golygai hyn na fyddai o reidrwydd angen darparu cyn nifer o dai i ddiwallu angen yn y Cynllun newydd. Nodwyd yr angen i ddiwygio polisi presennol i gyd fynd a'r ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru ynghyd a'r ffaith fod Cyngor Gwynedd bellach wedi gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4.

**Gweithredu yn dilyn cyfarfod y Gweithgor**

3.1.9 Ni arweiniodd y drafodaeth yn ystod cyfarfod o'r Gweithgor at yr angen i gynnal diwygiadau pellach i gynnwys AMB 6.

## 3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.2.1 Fel sydd wedi nodi yn rhan 2 o'r adroddiad yma, mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gosod allan yr angen i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn flynyddol ac i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref yn flynyddol. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol am berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024. Ymhellach mae'n ffurfio rhan bwysig o'r sail tystiolaeth ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd.

## 3.3 Camau nesaf

3.3.1 Yn dilyn unrhyw newidiadau gall ddeillio o'r drafodaeth neu unrhyw fan newidiadau golygyddol bydd ei angen er cywirdeb, bydd fersiwn terfynol o'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael ei baratoi a'i yrru i Lywodraeth Cymru erbyn 31/10/2024.

## 4.0 Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol".

### 4.2 Swyddog Monitro

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"

## Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 2023-2024.